Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Betws yn Rhos**

**Neuadd y Pentref Betws yn Rhos**
**Betws yn Rhos**
**LL22 8AW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**1 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Betws yn Rhos wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i hyd at 18 o blant rhwng dwy a phedair oed.  Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o 8.00am i 5.00pm ddydd Llun a dydd Iau, 8.00am i 3.00pm ddydd Mawrth a dydd Mercher ac 8.00am tan 1.00pm ddydd Gwener.  Yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ystafell wedi'i rhentu yn neuadd y pentref.  Mae'r gwasanaeth hefyd yn gallu defnyddio caeau chwarae a gardd ysgol y pentref.  Y personau cofrestredig yw Meira Woosnam a Linda Griffiths.  Linda Griffiths yw'r person sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.  Mae'r gwasanaeth yn ddwyieithog ac yn darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn fodlon.  Maent i gyd yn ddysgwyr gweithredol a chwilfrydig ac yn mwynhau dewis yr hyn maent am ei wneud yn llwyr o'r ystod eang o weithgareddau ysgogol. Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol plant yn effeithiol ac yn darparu gofal ymatebol, gan ddarparu anogaeth gadarnhaol aml i blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan blant ystod eang o gyfleoedd dysgu o fewn yr amgylchedd sy'n ddiogel ac yn lân. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn effeithiol gan arwain at lefel gofal da i'r plant gan dîm staff ymroddedig. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni a'r gymuned ehangach.

### 2. Gwelliannau

Roedd yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf wedi cael eu bodloni
Roedd adolygiad ansawdd gofal wedi cael ei gwblhau ac mae arweinwyr yn gweithio ar welliannau parhaus i'r lleoliad.

Roedd ffeiliau staff wedi'u trefnu'n dda ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Roedd yr arweinwyr yn cadw cofnod o ymwelwyr i'r gwasanaeth ac fel yr argymhellwyd yn yr arolygiad diwethaf, roedd hwn yn cael ei gadw mewn man amlwg.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Ni chafodd unrhyw argymhellion eu gwneud fel rhan o'r arolygiad hwn.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n dda a gwrandewir arnynt bob amser. Maent yn hapus ac yn dangos sgiliau helaeth wrth reoli rhyngweithio cadarnhaol. Mae'r holl blant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu'n arw. Mae'r plant yn mwynhau ystod arwyddocaol ac ysgogol o brofiadau sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau a dilyn eu diddordebau.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae plant yn dylanwadu'n gadarnhaol ar sut maent yn treulio eu hamser ac mae ganddynt lais cryf yn y gwasanaeth.

Roedd plant wedi'u hymdrwytho'n gadarnhaol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd y plant yn gwybod yn hyderus y gallent gyfathrebu yn yr iaith o'u dewis ac y gwrandewir arnynt. Roedd sgiliau iaith plant yn gwella, clywyd plentyn a ddaeth o gartref sy'n siarad Saesneg yn defnyddio'r ddwy iaith i egluro'r hyn yr oeddent eisiau fel byrbryd, gan fagu hyder a dysgu'r iaith Gymraeg. Gofynnodd plentyn yn hyderus wrth y staff a allent baentio enfys ac roeddent yn gweithio gyda'i gilydd i geisio dod o hyd i'r lliwiau cywir, a gofynnodd a oedd plant eraill eisiau ymuno â'r gweithgaredd. Roeddent i gyd yn canu cân yn rhestru lliwiau'r enfys yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r plant yn gwybod y gwrandewir arnynt, maent yn gwneud penderfyniadau cadarnhaol gan eu bod yn gwbl ymwybodol o'r dewisiadau eang sydd ar gael iddynt.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn gyfarwydd ac yn hyderus â strwythur a threfn eu diwrnod.

Gwelsom ni nhw'n tynnu eu hesgidiau cyn gynted ag yr oeddent yn cyrraedd ac nid oeddent yn gallu aros i ymuno yn yr hwyl. Roedd plant yn gwybod y drefn arferol; pan oedd hi'n amser mynd am ginio yn y brif neuadd drws nesaf, roeddent i gyd yn aros wrth y drws nes bod pawb yn barod i gerdded i fyny gyda'i gilydd. Roedd plant ifanc a oedd newydd ddechrau wedi ymgartrefu'n barod. Gwelsom blentyn ar ei wythnos gyntaf, a oedd ychydig yn dawel i ddechrau ond wrth i'r sesiwn fynd yn ei blaen, roedd y plentyn yn cymryd rhan yn fuan ac â diddordeb yn yr hyn a oedd yn mynd ymlaen ac yn chwarae'n hapus gyda'u ffrindiau newydd. Wrth ymarfer ar gyfer y diwrnod chwaraeon sydd ar ddod ar y cae chwarae cyfagos, roedd plant yn helpu ei gilydd pan oeddent yn gollwng eu 'wy' yn ystod y ras 'wy ar lwy'. Roeddent yn dal dwylo ei gilydd ac os oedd un yn gyndyn o ddilyn y rheolau glywsom ni nhw'n esbonio'n garedig i'w gilydd pam oedd yn rhaid iddynt ddilyn cyfarwyddiadau.

Mae plant wedi setlo'n dda ac yn cefnogi ac yn annog ei gilydd i fwynhau'r gweithgareddau y gallant gymryd rhan ynddynt.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda gyda'r rhai o'u cwmpas.

Roedd y plant yn ffurfio cyfeillgarwch ac yn dysgu i fod yn garedig ac yn ystyriol tuag at ei gilydd. Gwelwyd plant yn eistedd ac yn sgwrsio gyda'u ffrindiau yn ystod amser cinio. Yn ystod amser cinio buont yn siarad am eu diddordebau a'r hyn oeddent yn ei fwyta. Cafodd blant sy'n cyrraedd o'r ysgol eu croesawu a gwnaethant gychwyn siarad â ffrindiau eraill. Wrth chwarae yn yr ardd roedd yr holl blant eisiau i'r staff ymuno yn eu gemau unigol, roedd rhai yn mynd ar gefn cychod yn y teiars tractor, roedd eraill yn chwarae pêl-droed, ac roedd rhai eraill mewn caffi. Cyrhaeddodd y plant gyfaddawd cyfforddus a llwyddiannus gyda'i gilydd ac roeddent i gyd yn cytuno y byddent yn chwarae gyda'r bêl i ddechrau, cyn symud i chwarae yn y 'caffi' ac roeddent yn gallu gwneud cwpanau te i eraill a oedd yn ymlacio yn eu cychod dychmygol.

Mae plant yn dechrau deall eu teimladau a'u hemosiynau'n llwyddiannus ac maent yn garedig ac yn ystyriol tuag at eraill.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae gan blant ddiddordeb ac yn gadarnhaol brysur gyda'r hyn sydd ar gael iddynt ei ddefnyddio.

Roedd plant yn mwynhau chwarae a dysgu. Gwelsom ni nhw'n treulio amser ar fwrdd gweithgareddau, lle'r oeddent yn gallu cael gafael ar ddinosoriaid ac eitemau amrywiol eraill yn ymwneud â'r thema bresennol. Daeth plant at, ac aethant i ffwrdd o'r bwrdd a sgwrsio gyda'i gilydd am yr hyn roedden nhw'n ei wneud. Roedd y plant yn mwynhau gwisgo i fyny ac roedd hyn yn eu galluogi i ymgolli yn eu byd chwarae a dychymyg. Gwnaethant fwynhau defnyddio'r ffrogiau ac aeth un plentyn a oedd yn cyrraedd yr ysgol yn syth i'r 'gornel traeth' a chwilio drwy'r cês yn llawn o eitemau, gan wisgo pethau gwahanol, cyn setlo ar 'wisg traeth' ac yna gorweddian yn hapus ar y gadair haul. Roedd profiadau tebyg yn cael eu rhoi i blant y tu allan. Roedd plant yn chwarae gyda'r haenau mawr ac esgus gyrru'r cwch dychmygol.

Mae plant yn cael ymdeimlad o gyflawniad ac yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu yn arw.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Roedd y plant yn mwynhau profiadau ysgogol ac amrywiol.

Roedd cyfleoedd i adeiladu a datblygu sgiliau ieithyddol cadarnhaol yn ystod sgyrsiau ystyrlon; buont yn mwynhau nifer o straeon yr oedd y plant yn gwrando arnynt yn frwdfrydig.  Roedd y plant yn mwynhau defnyddio'r offer recordio; roeddent yn recordio eu lleisiau eu hunain, yna gallant wrando'n ôl, gan arwain at lawer o chwerthin.  Roedd plant hefyd yn gwrando ar lyfr sain ac roeddent yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r clustffonau; roeddent yn canu a gwneud ystumiau gyda'u dwylo wrth iddynt wrando'n astud.  Gwelwyd fod plant yn cwblhau gweithgareddau gyda chefnogaeth briodol, roedd plentyn yn canolbwyntio ar wneud llun, rhannodd y plentyn â'r staff yr hyn yr oedd am ei dynnu, a awgrymodd staff sut y gellid gwneud hyn.  Dewiswyd 'helpwr y dydd' yn ystod amser byrbryd a gwelwyd fod plant yn cymryd rhan lawn yn y swyddogaeth hon ac yn falch o'u cyflawniadau.  Roedd y plant yn casglu cinio ysgol yn llwyddiannus ac yn clirio eu platiau eu hunain wrth fwyta cinio ysgol.

Roedd ystod helaeth o brofiadau yn cael eu cynnig i blant i adeiladu ar hunanhyder a'u hannog i ddefnyddio menter i gefnogi datblygu sgiliau newydd.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn gymwys ac yn llawn cymhelliant. Maent yn hyrwyddo datblygiad pob plentyn yn llwyddiannus trwy weithgareddau cynllunio amrywiol a diddorol a'u dull gofalgar ac ymatebol. Mae staff yn gymwys ac yn brofiadol ac yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion plant. Maent yn deall sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach ac yn hyrwyddo rhyngweithiadau cadarnhaol trwy ddull cyson a dathlu cyflawniadau plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae’r staff yn gymwys wrth gadw plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd y staff yn dilyn ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, trwy drafodaeth, canfuom eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt bryder diogelu yn unol â pholisi'r gwasanaeth i gadw plant yn ddiogel. Mae staff sy'n cefnogi plant i ddilyn diet iach, maent yn gweithredu polisi bwyta'n iach y gwasanaeth, a gwelsom fod y bwyd oedd gan blant yn eu pecyn bwyd yn iach ac yn faethlon. Roedd bwyd yr oedd angen ei oeri yn cael ei gadw yn yr oergell nes ei bod yn amser cinio. Yn ystod tri diwrnod o'r wythnos, mae’r staff yn cynorthwyo’r plant i fwyta cinio ysgol ac yn ystod y cyfnod hwn maent yn dilyn bwydlen yr ysgol. Roedd y staff yn helpu plant i orffen eu llysiau, ac roedd dŵr a llaeth yn cael eu cynnig i yfed, gyda chyfleoedd rheolaidd i blant i yfed yn ystod y dydd.

Mae’r staff yn sicrhau fod plant yn treulio digon o amser yn yr awyr iach; roeddent yn rhedeg, yn chwarae ac yn dysgu am y byd o'u hamgylch. Roedd dwylo a byrddau'n cael eu glanhau cyn byrbryd ac amseroedd bwyd. Roedd ffurflenni damweiniau a digwyddiadau wedi'u cwblhau ac roedd y rhai a welwyd wedi'u llofnodi gan rieni.

Mae'r staff yn dilyn ac yn hyrwyddo arferion iach wrth gadw plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae’r staff yn defnyddio dulliau gwahanol a diddorol yn effeithiol i hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol plant.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda iawn ac roedd ganddynt wybodaeth bersonol fanwl amdanynt. Er enghraifft, roedden nhw'n gwybod pryd roedd plentyn eisiau cael ei adael ar ei ben ei hun a phryd oeddent eisiau cefnogaeth a chysur. Roeddent yn rheoli rhyngweithio'r grwpiau ac roedd plant yn adlewyrchu'r ymddygiad priodol yr oeddent yn ei weld. Roedd y staff yn defnyddio technegau hwyliog i annog plant i wrando ar eraill, er enghraifft, yn ystod amser cylch roedd 'Lola y Llewpard' yn cael ei defnyddio i helpu plant aros eu tro a chyfrannu'n gadarnhaol i amser cylch. Mae’r staff yn rhoi'r tedi i'r plant ac mae'r plant wedyn yn gwybod mai eu tro nhw ydyw i rannu'r hyn maen nhw ei eisiau gyda'r grŵp cyfan.

Mae'r staff yn dathlu cyflawniadau'r plant yn frwdfrydig. Fe'u clywyd yn rhannu gydag eraill pan oedd plentyn wedi cwblhau gweithgaredd yn llwyddiannus ac roedd plentyn a gyrhaeddodd o'r ysgol â 'seren o'r wythnos' yn cael ei longyfarch yn serchog gan bawb a chymerwyd ffotograffau.

Roedd staff yn rhoi eu hamser a'u sylw i blant, roedden nhw bob amser ar gael, er enghraifft, roeddent yn eistedd gyda nhw yn ystod amser cinio ac yn bwyta cinio gyda nhw, yn sgwrsio'n gyfforddus am eu bywydau cartref a materion o ddydd i ddydd.

Mae'r staff yn garedig ac yn dyner yn eu hymagwedd. Maent yn modelu ymddygiad cadarnhaol yn gyson ac yn canmol ac yn llongyfarch plant am eu cyflawniadau a'u llwyddiannau.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae a dysgu plant yn gyson.

Roedd y staff yn cefnogi ac yn annog plant i gymryd rhan yn yr hyn a oedd yn digwydd o'u cwmpas ar eu cyflymder eu hunain. Roedd y staff yn darparu offerynnau cerdd i'r plant yn ystod amser cylch ac ymunodd plentyn nad oedd am ymuno i ddechrau yn nes ymlaen ar ôl gweld yr hwyl oedd plant eraill yn ei gael ac roedden nhw i gyd yn gwneud synau ac yn gwenu ar y rhai a oedd yn eistedd gyda nhw. Roedd staff ar gael i helpu plant pan oeddent angen, roedd staff yn helpu plant i gwblhau posau jig-so pan oedd angen, ac roedd tedi'n cael ei ddefnyddio i wneud dysgu'n hwyl. Roedd staff yn dangos gwir ddiddordeb yn newis y plant o weithgareddau gan ofyn iddynt beth oeddent yn ei wneud ac yn chwarae ochr yn ochr â nhw gyda brwdfrydedd.

Roedd y staff yn defnyddio rhai o feysydd awyr agored yr ysgol, ac roedd plant yn profi gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored wedi'u nodi yn unol â chyfnod Sylfaen Chwarae a Dysgu Llywodraeth Cymru. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn ystyried y themâu a ddewiswyd yn ofalus a'u bod yn awyddus i apelio at ddiddordeb plant. Roedd staff yn dilyn ac yn rhoi cynlluniau gweithgaredd manwl ar waith ac yn cadw cofnodion o ddatblygiadau a chyflawniadau plant.

Mae'r staff yn ymroddedig ac yn frwdfrydig iawn wrth hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel sy'n rhoi ethos cadarnhaol iddynt ar gyfer chwarae a dysgu. Dilynir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod adnoddau'n lân ac o ansawdd da.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd arweinwyr yn sicrhau fod yr amgylchedd yn ddiogel, y tu fewn a'r tu allan a gofynnwyd i ni arwyddo llyfr yr ymwelydd, a oedd yn golygu fod arweinwyr yn sicrhau na fyddai unrhyw unigolion heb awdurdod yn gallu cael mynediad i'r adeilad. Nid oedd asesiadau risg ysgrifenedig ar gael, ond nid oedd unrhyw risgiau amlwg i ddiogelwch plant. Mae'r arweinwyr yn clirio'r ystafell yn ddyddiol, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio gan eraill gyda'r nos. Mae'r person â gofal yn cychwyn yn gynnar bob bore i osod a pharatoi'r ystafell yn barod i'r plant ei defnyddio. Roedd ymarferion tân wedi'u cynnal ar gyfnodau priodol, gan olygu y byddent yn gallu gwacáu'r adeilad yn ddiogel pe bai argyfwng.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diddorol i'r plant sy'n ysgogi eu diddordebau.

Mae meysydd dysgu yn cael eu newid a'u diweddaru'n rheolaidd gan olygu fod gan blant bob amser rywbeth newydd i'w archwilio a'i ddysgu trwy eu chwarae. Mae'r ystafell chwarae yn cael ei rhannu gan nifer o glybiau eraill, sy'n golygu bod yn rhaid i arweinwyr glirio'r ardal yn rheolaidd a chadw'r adnoddau. Mae arweinwyr yn defnyddio hyn i'w mantais trwy ddefnyddio hyn fel cyfle i gylchdroi'r teganau y gall plant ddewis ohonynt yn yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, gwelsom fod y gornel gartref a welwyd yn ystod yr ymweliad cyntaf wedi'i newid i jyngl ar yr ail ymweliad yn unol â thema newydd anifeiliaid y byd. Mae'r arweinwyr yn meithrin perthynas agos gyda'r ysgol gyfagos, ac mae arweinwyr a staff yn cefnogi plant i ddefnyddio ardaloedd awyr agored sy'n perthyn i'r ysgol. Gwelwyd plant yn mwynhau chwarae ac ymlacio yn yr ardd ac roeddent yn paratoi ar gyfer diwrnod chwaraeon ar y cae chwarae gerllaw a gwnaethant ymuno â phlant hŷn ar gyfer cinio ysgol ar ddiwrnodau dethol o'r wythnos.

Mae'r arweinwyr yn ymroddedig i sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu digon o gyfleoedd chwarae sy'n gweddu i oedrannau a chyfnod datblygu'r plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae’r arweinwyr yn gweithredu proses yn effeithiol i adolygu a monitro ansawdd yr adnoddau.

Mae’r arweinwyr yn gwirio'r adnoddau ar ddiwedd pob sesiwn wrth glirio'r ardal.  Mae unrhyw eitemau sydd angen eu glanhau yn mynd adref ac yn cael eu dychwelyd y diwrnod canlynol yn barod i’r plant eu defnyddio eto. Roedd y dewis o adnoddau yn annog plant i ddilyn eu diddordebau a datblygu sgiliau gwahanol. Er enghraifft, roedd adnoddau chwarae rôl yn annog plant i chwarae ochr yn ochr â'i gilydd a chymryd diddordeb a dysgu am y thema bresennol. Roedd y dodrefn o faint priodol, a oedd yn galluogi'r plant i eistedd yn gyfforddus i fwyta ac i wneud gweithgareddau pen bwrdd. Roedd yr arweinwyr yn darparu eitemau naturiol, wedi'u hailgylchu a domestig i’r plant at ddibenion gwaith crefft a modelu a oedd yn hyrwyddo ethos o gynaliadwyedd o fewn y gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau fod gan blant ardaloedd cyfforddus i ymlacio neu ddarllen.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr ystod eang o adnoddau ac offer yn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth plant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth gyda phwyslais ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn a diwallu anghenion plant yn dda.  Mae'r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol ac wedi sefydlu tîm staff cryf sydd â swyddogaethau a chyfrifoldebau clir a gofal o ansawdd i'r plant. Mae partneriaethau sefydledig gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol a pherthnasau cryf gyda'r ysgol.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hyderus yn eu swyddogaethau a'u bod yn gallu dibynnu ar yr arweinwyr am gymorth pan oedd angen. Roedd yr holl ddogfennau gofynnol ar gael.  Mae'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i rieni wneud penderfyniad gwybodus am y gofal y mae eu plentyn yn ei dderbyn.  Mae'r arweinwyr yn treialu oriau agor newydd mewn ymateb i'r galw gan rieni ac mae'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn.  Mae'r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod y gwasanaeth yn cwrdd â gofynion teuluoedd. Roedd polisïau a gweithdrefnau'n gynhwysfawr ac wedi eu rhoi ar waith yn llwyr a'u hadolygu'n gyson gan y person cofrestredig.  Ar adeg cofrestru, roedd y ffurflenni angenrheidiol yn cael eu rhoi i rieni eu cwblhau.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn ymdrechu i roi profiadau cadarnhaol i'r plant y byddant yn elwa ohonynt.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn ceisio adborth ynglŷn â'u gwasanaeth gan y staff, y plant a'r rhieni er mwyn ceisio gwella eu gwasanaeth.

Mae'r tîm staff bach yn galluogi trafodaethau cyson ac adeiladol i drafod sut mae'r gwasanaeth yn gweithio a chynllunio a chytuno ar newidiadau. Roedd y staff yn cael y cyfle i rannu eu barn gyda'r arweinwyr a'r pwyllgor.  Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt ddulliau ar waith i wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu yn barhaus. Mae'r arweinwyr wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal ac wedi gweithredu nifer o newidiadau cadarnhaol, megis rhannu cylchlythyrau rheolaidd gyda rhieni.  Mae'r oriau agor wedi cael eu hymestyn ac mae plant nawr yn mwynhau cinio ysgol bedwar diwrnod yr wythnos.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt ddulliau ar waith i wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu yn barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gwneud eu gwaith yn effeithiol ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant.

Roedd cofnodion gwerthuso blynyddol a welwyd yn ystyrlon a hefyd yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, mae goruchwyliaeth un i un yn cael ei wneud ar sail ad hoc, nid oedd y rhain yn cael eu cofnodi, ond dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda. Dywedodd y staff y gwnaethom siaradwyd â nhw wrthym eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i siarad ag aelodau'r pwyllgor sy'n gefnogol ac roedd eu safbwyntiau'n cael eu hystyried yn ystod cyfarfodydd. Mae'r arweinwyr a staff yn defnyddio menter ac yn darparu ystod eang o adnoddau sy'n tanio dychymyg plant a'u cyflwyno i brofiadau gwahanol a diddorol. Rhannodd y person â gofal adnoddau'n ddiweddar i ail greu llosgfynydd gyda'r plant. Mae'r arweinwyr a staff yn flaengar ac yn ymdrechu i gefnogi plant i ddysgu'n llwyddiannus am y byd o'u cwmpas trwy weithgareddau hwyliog.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth a'r staff yn dda ac o ganlyniad mae'r plant yn elwa o wasanaeth effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan arweinwyr bartneriaethau cadarnhaol gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol a pherthynas lwyddiannus gyda'r ysgol gyfagos.

Roedd yr arweinwyr yn gadael i rieni wybod am amser eu plentyn yn y gwasanaeth bob dydd trwy adborth ar lafar. Mae'r arweinwyr wedi bod yn gweithio ar wella cyfathrebu gyda rhieni, ac mae arweinwyr wedi rhoi gwelliannau ar waith, mae cylchlythyrau wedi cael eu hanfon at rieni. Roedd digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd yn cael eu cynnal, a oedd yn cynnig cyfle i rieni gymdeithasu ac ymgynghorir â nhw ynghylch y daith flynyddol ac maent yn mynychu gyda'u plant. Mae'r rhieni yn rhannu gwybodaeth am eu plentyn cyn i'r plentyn ddechrau, gyda rhai plant wedi mynychu'r grŵp ti a fi. Roedd perthnasau cadarnhaol gyda gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth, megis athro ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen, wedi hen sefydlu ac yn galluogi staff i wella arferion mewn perthynas â chwarae a dysgu plant. Roedd partneriaethau cadarnhaol rhwng y gwasanaeth a'r ysgol; roeddent yn rhannu'r mannau chwarae awyr agored a hefyd yn mwynhau cinio gyda'i gilydd.

Mae partneriaethau gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol yn dda ac yn cyfrannu at lesiant cadarnhaol plant.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Ni chafodd unrhyw argymhellion eu gwneud fel rhan o'r arolygiad hwn.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o’n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaethom arolygu ar 23 Mai 2018 gan gyrraedd am 9.35am a gadael am 12.30pm ac ar 6 Mehefin 2018 yn cyrraedd am 11.00am a gadael am 2.30pm.

- gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal roeddent yn ei dderbyn.
- gwnaethom siarad â'r person â gofal, y person cofrestredig a staff;
- Gwnaethom siarad â'r plant a oedd yn bresennol.
- Gwnaethom edrych ar y mannau a ddefnyddir gan y plant
- gwnaethom edrych ar ystod eang o gofnodion, gan gynnwys presenoldeb, polisïau a gweithdrefnau, y datganiad o ddiben, ffeiliau staff a phlant a chofnodion datblygiad
- gwnaethom roi adborth o'n canfyddiadau i'r person cofrestredig.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person Cofrestredig** | **Meira Woosnam**<br>**Linda Griffiths** |
| **Person â gofal** | **Linda Griffiths** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **18** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 4 mlwydd oed.** |
| **Oriau agor** | **Llun 8:00am- 5:00pm**<br>**Dynn Mawrth 8:00am- 3:00pm**<br>**Dydd Mercher 6:00pm- 3:00pm**<br>**Dydd Iau 8:00am- 5:00pm**<br>**Dydd Gwener 08:00- 13:00**<br>**Tymor yr ysgol yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **15 Ebrill 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **23 Mai 2018 a 6 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac Ydyw** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, nodi a bodloni anghenion y bobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth o ran yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |